

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn
Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Tachwedd 13, 2018 am 7.30 o'r gloch.**

Presennol: Cyngorwyr: Geraint Rowlands (Cadeirydd), John Hughes, Llinos Williams, Simon Evans, Elfed ap Gomer, Gethin Williams. Hefyd Peredur Jenkins, Henry M. Edwards.

1. Ymddiheuriadau: Gareth Ellis.

2. Datgan diddordeb:

Roedd Gethin Williams yn datgan diddordeb ynglŷn ag Eitem 7.a.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Hydref 9, 2018

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion Hydref 9, 2018

Eitem 5.ch. Galwad ffôn (18/10/2018) oddi wrth Swyddog o'r HSBC yn gofyn am ein dogfennau a dywedwyd wrthi maent ar gael ar ein gwefan a rhoddwyd iddi fanylion o'n cyfrifon am 2017 - 2018. Mae HSBC am gyfieithu'r dogfennau mae HSBC Safeguard ei angen.

Diolchwyd i Peredur Jenkins am siarad gyda Swyddog o'r banc y dref (17/10/2018) i gael hwy i helpu ni i ddelio gyda HSBC Safeguard ac maen amlwg mae'r banc wedi cymryd sylw o'r mater.

Llythyr (18/10/2018) oddi wrth HSBC yn diolch am roi y cyfle iddynt ddatrys ein cwyn.

Llythyr (22/10/2018) oddi wrth HSBC Safeguard yn gofyn am fwy o wybodaeth. Os ni fyddant yn cael y wybodaeth cyn Rhagfyr 6, 2018 bydd ein cyfrif yn cau. Anfonwyd y llythyr ymlaen i HSBC. Rhoddwyd gwybod i HSBC Safeguard (29/10/2018) bod y gwaith yn cael ei wneud gan HSBC. Derbyniwyd llythyr oddi wrth HSBC yn diolch am y llythyr.

Rhoddwyd y Mandad i'r banc ar 25/10/2018.

Llythyr (30/10/2018) oddi wrth HSBC yn diolch am y dogfennau cyfieithwyd iddynt.

Galwad ffôn a llythyr (30/10/2018) oddi wrth HSBC Safeguard angen gwybod pwy yw prif reolwyr y Cyngor (rhoddwyd yr enwau oedd ar y Mandad), a copi o bil iwtiliti a thrwydded yrru Henry M. Edwards. Rhoddwyd y wybodaeth iddynt ar 30/10/2018.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION TACHWEDD 13, 2018

Llythyr (31/10/2018) oddi wrth HSBC Safeguard yn gofyn am fanylion y pump aelod oedd ddim ar y Mandad. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau. Galwad ffôn (1/11/2018) oddi wrth HSBC Safeguard angen manylion y pump aelod. Derbyniwyd manylion cywir gan Llinos Williams a Gethin Williams a rhoddwyd gwybodaeth oedd gan y Cyngor ar y tri arall. Anfonwyd y wybodaeth ymlaen i HSBC Safeguard ar 2/11/2018.

Llythyr (2/11/2018) oddi wrth HSBC Safeguard yn gofyn am ddyddiad genni Simon Evans. Anfonwyd y wybodaeth i HSBC Safeguard 3/11/2018.

5. Materion Ariannol

a. Llythyr (8/10/2018) a dogfennau oddi wrth BDO LLP. Amgáu mae:

Hysbysiad diwedd yr archwiliad – mae angen ei arddangos mewn lle amlwg am 14 diwrnod o Hydref 8, 2018. Rhoddwyd copi ar hysbysfyrdau Llanelltyd, Taicynhaef a Bontddu

Nodiadau ynghylch hysbysiad Diwedd yr Archwiliad

Materion yn codi yn sgil yr archwiliad -

Ni chofnodwyd asesiad risg ei adolygu na ei gofnodi yn ystod 2017/18 ac mae angen gwneud hyn yn flynyddol.

Yn y flwyddyn flaenorol roedd asedau sefydlog ar bris prisiant. Mae asedau rhoddwyd yn 2017/18 wedi eu prasio ar y pris prynu i'r Cyngor. Cafodd gwerth yr asedau sefydlog eu gor-ddatgan yn 2016/17. Mae rhaid i'r Cyngor sicrhau bod y ffigyrau yn cael eu cyflwyno ar yr un cynllun.

Cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol – Nid yw'r Cyngor wedi nodi'r cyfeirnod cofnodion a'r dyddiad ar gyfer cymeradwyo'r datganiadau cyfrifo a'r datganiad llywodraethant blynyddol. Mae rhaid sicrhau fod pob blwch wedi ei gwblhau.

Pwerau gwariant - pŵer A137 yn cael ei ddefnyddio'n anghywir.

Cafodd cyfraniadau eu gwneud i wyl allai fod wedi cael eu hawdurdodi dan A145 Deddf Llywodraeth Leol 1972, darparu adloniant a chefnogi'r celfyddydau.

Gwnaethpwyd taliadau i glwb/clybiau cymdeithasol, chwaraeon neu ieuencid lleol, allai fod wedi cael ei awdurdodi dan A19 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, y pŵer i ddarparu cyfleusterau hamdden o fewn a thu hwnt i'r ardal.

Cafodd taliad ei wneud i Neuadd Bentref lleol allai fod wedi cael ei hawdurdodi dan A133 Deddf Llywodraeth Leol 1972, sy'n caniatáu gwneud cyfraniadau tuag at redeg neu ddodrefnu adeiladau i'w defnyddio ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus.

Ffurflen dewis dyddiadau ar gyfer 2018/19 – Ei adael i BDO.

Manylion cyswllt – mae angen cynwys y Cadeirydd.

Arolwg 2017/18 – mae angen rhoi sgôr ar waith BDO.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION TACHWEDD 13, 2018

Ffurflen Flynyddol – mae angen ei gyflwyno i'r Cyngor a gwneud cofnod fod y ffurflen wedi cael ei chymeradwyo a'i dderbyn gan y Cyngor.

Penderfynwyd cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol a'i dderbyn. Penderfynwyd hefyd cynwys enw'r Cadeirydd a chwblhau ffurflen yn rhoi marciau i BDO.

Ar y Ffurflen mae nodyn 'Nid yw'r Cyngor yn ymgymryd a munud asesiad risg llawn yn ystod y flwyddyn. Nid yw'r Cyngor yn gallu dangos ei fod wedi asesu a chymryd camau priodol i reoli'r holl risgiau y mae'n eu hwynebu. Mae hyn yn groes i Reoliad 5 o Reoliadau Archwilio (Cymru) 2014'.

Derbyniodd yr aelodau copi o ein Rhaglen Asesiad Risg ac yn y cyfarfod Penderfynwyd cymeradwyo'r Rhaglen Asesiad Risg a'i dderbyn. Diolchwyd Elfed ap Gomer am baratoi'r Rhaglen Asesiad Risg.

b. Bil (26/10/2018) am £132.00 oddi wrth Cyngor Gwynedd at daliad gwasanaeth archwilio mewnol ar gyfer cyfrifon 2017/2018.

Penderfynwyd talu'r bil.

c. Derbyniwyd (16/10/2018) ad-daliad o £841.17 oddi wrth Cyngor Gwynedd am glirio llwybrau cyhoeddus yn 2018/2019.

ch. Bil (25/10/2017) am £20.00 oddi wrth R.B.I. Poppy Appeal am 'type B wreath'.

Penderfynwyd talu'r bil.

d. Balans yn y banc ar 29 Hydref 2018: £11,236.54.

6. Mynwent Llanelltyd

a. Roedd canmoliaeth ar waith Mr A.M. Ashton am gynnal a chadw'r fynwent.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Cais cynllunio: NP5/65/335B . Cynllun Trydan-dŵr (34kw) arfaethedig yn cynnwys pibell wedi ei gladdu yn rhanol, adeilad twrbin, all-lif a chysylltiad grid wedi ei gladdu. Afon Hirgwm, Bontddu.

Penderfynwyd cefnogi'r cais. Penderfynwyd hefyd i Gethin Williams rhoi gwybod i'r Awdurdod rydym yn dymuno cael manylion y ceisiadau ar bapur fel rydym wedi arfer eu cael.

8. Gohebiaeth

a. Llythyr (11/10/2018) oddi wrth Adran Tai, Cyngor Gwynedd ynglŷn â Chynhadledd Flynyddol Cyngor Pobl Hyn Gwynedd bydd yn cael ei gynnal yn Y Ganolfan, Porthmadog am 10.30yb ar Tachwedd 16, 2018. Y testun fydd “Taclo Unigrwydd mewn Cymunedau”. Bydd nifer o stondinau gan wasanaethau cymorth yn rhan o’r gynhadledd yn ogystal â chwmmi Beti George fel y brif siaradwraig. Mae rhaid cofrestru ymlaen llaw i sicrhau lle a chinio yn y gynhadledd. Llythyr (5/11/2018) oddi wrth Adran Oedolion, Cyngor Gwynedd gyda mwy o wybodaeth ynglŷn â’r Gynhadledd. Anfonwyd y llythyr ymlaen i’r aelodau.

b. Llythyr (12/10/2018) oddi wrth Cymdeithas yr Iaith yn rhoi gwybod maent yn cynnal eu Cyfarfod Cyffredinol ar y 13eg o Hydref (y dydd Sadwrn) yma yng Nghell B, ym Mlaenau Ffestiniog, fydd yn dechrau am 10:30.

c. Llythyr (19/10/2018) oddi wrth Liz Saville Roberts AS yn rhoi gwybod bydd Bore Coffi yn Tŷ Siamas ar 2/11/2018 am 10.30 – 12.30. Yn bresennol bydd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu. Anfonwyd y wybodaeth i’r aelodau.

ch. Llythyr (23/10/2018) oddi wrth Un Llais Cymru gyda phedwar dogfen am yswiriant allai fod o ddiddordeb i ni. Anfonwyd y wybodaeth ymlaen i’r aelodau.

d. Llythyr (24/10/2018) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd: Cynhadledd Arfer Arloesol a Gwobrau dydd Iau, Mawrth 28,2019, Cynhadledd Arfer Arloesol dydd Mercher, Gorffennaf 10, 2019. Cynhadledd Genedlaethol a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol dydd Sadwrn, Hydref 5, 2019.

dd. Derbyniwyd (29/10/2018) oddi wrth Un Llais Cymru, Bwletin Newyddion Hydref 2018. Anfonwyd ymlaen i’r aelodau.

e. Llythyr (30/10/2018) oddi wrth Cydlynnydd Ymdrech Dwristiaeth Cylch yr Iaith yn gofyn i’r aelodau rhoi gwybod i Gyngor Gwynedd maent yn cefnogi’r ddogfen (amgau) ‘Cylch yr Iaith. Twristiaeth yng Ngwynedd’. Anfonwyd copi o’r llythyr i’r aelodau.

f. Llythyr (6/11/2018) oddi wrth Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru gyda Adroddiad Argymhellion Terfynol, Arolwg o Drefniadau Etholiadol Sir Gwynedd. Mae’r wybodaeth ar eu wefan: <http://ldbc.gov.wales/reviews/electoralreviews/curreviews/gwynedd-final/?skip=1&lang=cy> Anfonwyd y llythyr i’r aelodau.

ff. Llythyr (8/11/2018) oddi wrth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, Cyngor Gwynedd gyda holiadur i’w gwblhau ynglŷn â thoiledau cyhoeddus. Maent angen gwybod anghenion y gymuned iddynt baratoi Strategaeth Toiledau Lleol. Anfonwyd y llythyr i’r aelodau.

g. Llythyr (9/11/2018) oddi wrth Swyddfa Etholaeth Blaid Cymru yn rhoi gwahoddiad i ddiwyddiad ym Mlaenau Ffestiniog i Gofio Gwrthwynebwr Cydwybodol y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'r digwyddiad yn Capel Bowydd, Blaenau Ffestiniog am 9.30yb. Anfonwyd y wybodaeth i'r aelodau.

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

a. Anfonwyd llythyr (23/10/2018) i Ap Trefor Owen yn gofyn am y diweddaraf o osod offer cyflymder traffic wrth yr ysgol, ac iddo drefnu'r Swyddog Diogelwch Ffyrdd ymweld â'r ysgol i gynllunio arwydd 20mya.

b. Anfonwyd llythyr (23/10/2018) i Ap Trefor Owen yn gofyn am y diweddaraf ynglŷn â rhybuddion i gael llinellau melyn wrth y gyffordd i Neuadd Llanelltyd.

c. Anfonwyd llythyr (23/10/2018) i Geraint Owen yn gofyn am y diweddaraf o drwsio'r 'railings' wrth y maes parcio.

ch. Anfonwyd llythyr (23/10/2018) i Alan Edwards yn gofyn am y diweddaraf o rwystro parcio yn y maes parcio. Hefyd, gofynnwyd am gopi o'r asesiad annibynnol ac am iddo drefnu cyfarfod â'r rhieni i esbonio problemau diogelwch.

d. Anfonwyd llythyr (23/10/2018) i Mathew Geddes, Heddlu Gogledd Cymru yn rhoi gwybod mai'n dal i ddisgwyl i Ringyll SNT ddod i gysylltiad ag ef i drafod goryrru yn Bontddu a Ganllwyd.

dd. Anfonwyd llythyr (1/11/2018) i Iwan ap Trefor, Cyngor Gwynedd am y diweddaraf ynglŷn â mesur cyflymder traffic wrth yr ysgol ac am gael 'GoSafe'. Hefyd y diweddaraf ar linellau melyn wrth y gyffordd.

Llythyr ateb (1/10/2018) oddi wrth Iwan ap Trefor yn rhoi gwybod mae'r cyfrif traffic ar y safle.

Llythyr ateb (6/10/2018) oddi wrth Iwan ap Trefor yn rhoi gwybod bydd y gwaith cyfreithiol ar gyfer y llinellau wedi ei gwblhau cyn y Nadolig a gobeithir peintio'r llinellau yn fuan.

e. Derbyniwyd llythyr (1/11/2018) (copi i Llinos Williams) oddi wrth Alun Edwards, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae'r llinellau ar geiriau yn y lle parcio'r ysgol wedi cael eu hail gwneud. Amgáu mae llun.

10. Materion Brys

a. Gyda'r Cyngor wedi cael gwybod gan Cymhorthydd Trethi Annomestig mae angen i ni barhau talu'r dreth fisol ar Toiledau Bontddu er eu bod ar gau, a ni chafwyd ateb gan Gwasanaeth Eiddo i adnewyddu prydles yr adeilad, beth yw dyfodol y Toiledau? (Eitem 4.Eitem 10.b. Cofnodion Hydref 9, 2018).

Penderfynwyd gwneud ymoliadau gyda Gwasanaeth Eiddo Corfforaethol, Cyngor Gwynedd i gael gwybod y gwaith sydd angen ei wneud i ddod ar adeilad i fyny i safon dderbyniol. Wedi cael y wybodaeth, gwneud ymoliadau â chontractwyr P. Cook a B Davenport am y costau i wneud y gwaith.

b. Mae pryder gan drigolion Bontddu mae perchenog Halfway House Hotel, Bontddu am ddymchwel yr adeilad i ddatblygu'r safle.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Cadw iddynt ystyried rhestru Halfway House Hotel, Bontddu i arbed yr adeilad. Mae hyn yn cefnogi cais Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i arbed yr adeilad.
